Asidau ac Alcalïau

Yn ystod ein hymweliad â'r chwareli, dysgon ni sut roedd calchfaen yn cael ei losgi yn yr odynau i wneud calch brwd. Roedd calch brwd yn cael ei daenu ar y caeau. Roedd dŵr yn cael ei ychwanegu ato i wneud calch tawdd.

Roedd taenu calch ar y caeau yn helpu i niwtraleiddio pridd asidig fel bod cnydau'n tyfu'n well. Mae calch tawdd yn alcalïaidd

Y Raddfa pH



Mae llawer o nwyddau tŷ hefyd yn asidau neu'n alcalïau ond dydyn nhw ddim yn rhy beryglus.

Mae rhai asidau ac alcalïau yn gryfach a rhaid eu trin yn ofalus. Mae cryfder asid neu alcali yn cael ei fesur ar y raddfa pH. Mae cemegion niwtral yn pH 7, mae'r rhai sy'n mesur llai na 7 yn asid, tra bo'r rhai sy'n mesur mwy na 7 (hyd at 14) yn alcalïaidd.



Mae ychwanegu asid at alcali (a'r ffordd arall) yn ei niwtraleiddio.

Oeddech chi'n gwybod bod yr hylif yn eich stumog yn asid ? Mae'r asid yn eich stumog yn eich helpu i dreulio'ch bwyd.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum